**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 12 CHWEFROR 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, S.Rees, A.Thomas, S.Morris, Wellington, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Fe'i nodwyd gan y pwyllgor

3. **DIRPRWYO YN Y LLYS - STRATEGAETH BUDDSODDIADAU AR GYFER CRONFEYDD CLEIENTIAID**

Nododd yr aelodau'r adroddiad adendwm a ddosbarthwyd a oedd yn diwygio Strategaeth Buddsoddi Dirprwyon y Llys ar gyfer Cronfeydd Cleientiaid a atodwyd yn flaenorol fel Atodiad 1 i'r prif adroddiad.

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo Strategaeth Buddsoddi Dirprwyon y Llys ar gyfer Cronfeydd Cleientiaid y manylwyd arno yn Atodiad 1 yr adroddiad adendwm.

2. Ymgymryd ag ymarfer caffael er mwyn penodi ymgynghorwyr ariannol i ddarparu cyngor ar fuddsoddiadau i gleientiaid â chyfalaf o dros £50,000, yn unol â'r strategaeth.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Darparu fframwaith ar gyfer buddsoddi cronfeydd cleientiaid dirprwyon y llys i sicrhau y cydymffurfir â safonau a statudau perthnasol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 4. DIRPRWYON Y LLYS - POLISI GWAREDU ASEDAU CLEIENTIAID YMADAWEDIG

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Polisi Gwaredu Asedau Cleientiaid Ymadawedig. fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Ffurfioli'r fframwaith gweithredol gyfer gwaredu asedau cleientiaid ymadawedig Dirprwyon y Llys.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 5. ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD ARDRETHI’R STRYD FAWR A MANWERTHU CYMRU 2020/21

**Penderfyniad:**

Derbyn a mabwysiadu'r arian grant, a'r cynllun Rhyddhad Ardrethi’r Stryd Fawr a Manwerthu ar gyfer y 2020/21, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Galluogi'r Tîm Ardrethi Busnes i weinyddu cynllun Rhyddhad Ardrethi’r Stryd Fawr a Manwerthu 2020/21.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 6. YMATEB AR Y CYD I DDEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015

**Penderfyniad:**

Awdurdodi'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog digidol i ddechrau ymarfer ymgynghori cyhoeddus pedair wythnos ar y Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach ddrafft, fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd, ac adrodd wrth y Cabinet am ganlyniad yr ymgynghoriad ym mis Mawrth 2020.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Rhoi awdurdod ffurfiol i'r swyddog perthnasol gymryd y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan Adran 5 (1) Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 7. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

| | |
|---|---|
| **PENDERFYNWYD:** | Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. |

8. **SYSTEM RHEOLI ACHOSION CYFREITHIOL**

**Penderfyniad:**

Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i ymrwymo i gontract, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, ar gyfer Meddalwedd Rheoli Achosion Cyfreithiol i ddechrau ar ddyddiad i'w bennu gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn prynu system rheoli achosion ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol fel y gellir cynnal achosion cyfreithiol a materion cyfreithiol mewn modd priodol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

9. **SYSTEM AD A CHYFLOGRES NEWYDD**

**Penderfyniad:**

Awdurdodi Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ymrwymo i gontract ar gyfer system AD/gyflogres newydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Er mwyn caniatáu i swyddogion ddatblygu datrysiad AD/cyflogres addas i'r diben a chost effeithiol a'i rhoi ar waith.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

# CADEIRYDD